6 Rhagfyr 2011

Horizon yn cyhoeddi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Mae Horizon Nuclear Power yr wythnos hon yn cyhoeddi ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol (SOCC) ar gyfer yr orsaf pŵer niwclear arfaethedig newydd yn Wylfa mewn papurau newydd ledled Ynys Môn a gogledd orllewin Cymru.

Mae'r SOCC yn garreg filltir bwysig yn y broses gynllunio gan ei fod yn amlinellu sut bydd Horizon yn ymgynghori'n ffurfiol â phobl leol am ei gynigion ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd. Mae'n rhoi golwg gyffredinol o sut a pham fydd Horizon yn ymgynghori ac mae 'Wylfa - Dogfen Gefndir yr Ymgynghoriad Cymunedol' yn ategu'r SOCC drwy roi rhagor o fanylion am y broses ymgynghori.

Er mwyn sicrhau bod ei ymgynghoriad cymunedol yn diwallu anghenion y bobl leol yn llawn, mae Horizon wedi ceisio barn Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Conwy wrth lunio'r SOCC a'r Ddogfen Gefndir. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adborth gan y cynghorau ac roedd wedi helpu i roi siâp i'r dogfennau terfynol.

Dywedodd Alan Raymant, Prif Swyddog Gweithredu Horizon Nuclear Power: "Mae'r SOCC yn ddogfen allweddol gan ei bod yn cynrychioli ein hymrwymiad i gynnwys pobl leol yn natblygiad ein cynlluniau ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa. Mae'n amlinellu sut rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad a sut gall pobl gael gafael ar wybodaeth. Mae hefyd yn nodi beth fyddwn ni'n ymgynghori yn ei gylch.

"Rydyn ni am annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a fydd yn dechrau yn gynnar yn 2012. Er mwyn hwyluso hynny, rydym yn cynllunio proses bellgyrhaeddol sy'n cynnig amrywiol ffyrdd y gall pobl ddysgu mwy am ein cynnigion a rhoi eu hadborth."

Gellir gweld y SOCC a'r Ddogfen Gefndir ar wefan Horizon: www.horizonnuclearpower.com. Mae copïau ar gael hefyd ym mhrif swyddfeydd y cynghorau ledled Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

Bellach, gall pobl gofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar wefan Horizon.

Gall unrhyw un sydd â chwestiynau am brosiect Horizon ffonio'r llinell wybodaeth am Wylfa yn rhad ac am ddim ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

DIWEDD

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Leon Flexman – 07989 493320 neu leon.flexman@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

Mae Horizon Nuclear Power Ltd yn fenter ar y cyd a sefydlwyd yn 2009 gan E.ON UK ac RWE npower. Mae'r cwmni'n datblygu cynigion ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn swydd Gaerloyw.

Byddai gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa yn darparu digon o drydan carbon isel ar gyfer dros bum miliwn o gartrefi. Disgwylir y bydd tua 5000 o swyddi'n cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu a thua 800 o swyddi gweithredol parhaol.

www.horizonnuclearpower.com